

## **PECYN TIWTORIAID –**

### **Theatr Syrcas Cimera yn cyflwyno ‘Drudwen’ –**

Drama syrcas ddwyieithog sy’n addas i ddysgwyr, siaradwyr Cymraeg a chynulleidfa heb ddim Cymraeg. (Anaddas i blant dan 7 oed).

Drama weledol sy’n gyfle i ddychymug pob unigolyn ddeall y stori yn ei ffordd ei hun.

### **Amserlen Perfformiadau**

**Ffwrnes Llanelli – 23 Hydref 7 y.h, 24 Hydref 10.30 a 7 y.h**

**Canolfan Mileniwm Cymru, Caerdydd – 25 Hydref 7 y.h &**

**26 Hydref 2 y.p & 7 y.h.**

**Riverfront, Casnewydd – 7 Tachwedd 1.00 a 7 y.h, 8 Tachwedd, 7 y.h**

**Venue Cymru, Llandudno – 12 Tachwedd 11 y.b & 7.30 y.h**

**Canolfan Celfyddydau Aberystwyth – 15 Tachwedd 10 y.b & 7 y.h**

**Dau Weithdy Syrcas am ddim i ddysgwyr sy’n prynnu tocyn i’r sioe.**

**Cyntaf i’r felin...(Manylion ar y poster yn y pecyn)**

**23/10/2019 – 5.00 –Theatr Ffwrnes, Llanelli**

**10/11/2019 – 6.00 y.h yn stiwdio TOGI, Bangor**

**15/11/2019 – 5.00 – Venue Cymru, Llandudno**

## Cynnwys

**Cyfle i ddysgwyr ddysgu yn anffurfiol mewn gweithdai syrcas. Deunydd ar gyfer hyrwyddo a pharatoi dysgwyr i ymweld gyda'r sioe. Cyfle i ddysgwyr ymteb i'r sioe a mwynhau celfyddyd.**

**Clipiau Video** – Clipiau o raglen Heno <https://vimeo.com/359290430>

– Cyfweliadau gyda'r cwmni

**Poster Gweithdy Syrcas:** Gwybodaeth am ddau weithdy syrcas am ddim i ddysgwyr – un yn Llanelli a'r llall ym Mangor. Bydd tiwtor Cymraeg ac aelod o'r cwmni syrcas yn cyfuno eu sgiliau i gyflwyno a dysgu triciau theatr tra hefyd yn ymarfer Cymraeg y dysgwyr. Lefel Sylfaen ac i fyny. Gweler poster drosodd.

**Taflen Synopsis a Geirfa:** Taflen i bob lefel dysgu fynd gyda hwy i'r perfformiad. Mae 'Drudwen' yn sioe ddwyieithog weledol iawn sy'n addas i ddechreuwr a'r di-gymraeg ei mwynhau efo'i gilydd.

### **Adnoddau i ddysgwyr cyn ac ar ôl gweld y sioe:**

Adnoddau addas i Lefelau Canolradd ac Uwch yn cynnwys clipiau fideo cyfweliadau Heno; spardunau trafod; taflenni geirfa; deialog o'r ddrama.

**Gweithdy Syrcas am ddim i ddysgwyr Cymraeg sy'n prynnu tocyn i'r sioe, felly cyntaf i'r felin - Lefel Sylfaen; Canolradd ac Uwch**



**Gweithdy syrcas am ddim i ddysgwyr Cymraeg sy'n prynnu tocyn i'r sioe. Lle i grwp o tua 12 felly cyntaf i'r felin...Gweithdy jwglo; troelli platiau; hwla hwp; diablo. Cyfle llawn hwyl i ymarfer eich Cymraeg. Lefel Sylfaen ac i fyny.**

**Prynnwch eich tocyn ac e-bostiwch Manon Prysor yn syth i gadw eich lle: [mprysor@icloud.com](mailto:mprysor@icloud.com)**

**23/10/2019 – 5.00 –Theatr Ffwrnes, Llanelli**

**10/11/2019 – 6.00 y.h yn stiwdio TOGI, Bangor**

## **PECYN I'R TIWTOR AR GYFER DYSGWYR CYN AC AR OL YMWELD GYDA SIOE 'DRUDWEN'**

Clipiau fideo rhaglen Heno wedi eu hatodi. <https://vimeo.com/359290430>

### **Cyfweliadau gyda'r cyfarwyddwyr a pherfformwyr**

**Gweithgaredd** - Gwyllo eitem 'Heno' ar glipiau fideo yn dilyn drilio geirfa. Gellir stopio'r fideo ar ddiwedd pob cyfweliad er mwyn ail-edrych ar yr eirfa :

### **Siwan Llynor – Cyfarwyddwraig gynorthwyol**

Cyfuno – Combining

Sioe wreiddiol – Original show

Chwedl dywyll – Dark legend

Campau (sycas) – Tricks

Campau awyrol – Aerial tricks

Corfforol – Physical

Cerddoriaeth fyw – Live music

### **Kate Driver Jones (Awdur y sioe a chyfarwyddwr artistic Cibera, sydd hefyd wedi dysgu Cymraeg)**

Plethu – To pleat or to braid used in Welsh with poetic license to mean inter weave

Perffaith – Perfect

### **Siwan Llynor (Ail gyfweliad)**

Darganfod – Discover

Creaduriaid – Creatures

Efeilliaid – Twins

### **Iago Morgan Jones – Perfformiwr Sycas**

Cefndir – Background

### **Dan Lawrence – Cerddor**

Magu plant – Raising children

### **Elen ap Rhobert – Cyfarwyddwr Artstic Pontio (Rhai geiriau deheuol)**

Rhoi llwyfan – Give a platform/stage

Gwledd – Feast

Sawl peth – many things

Ochr yn ochr – side by side

**Trafodwch argraff y dysgwyr o'r clipiau. Ydyn nhw wedi gweld sioe fel hyn o'r blaen?**

## CYFLWYNO GEIRFA A IAITH Y DDRAMA:

### Driliwch y 4 gair isod:

**Ymhell** – afar    **Hudolus** – enchanting    **Dewines** – enchantress    **Dyhead gudd** – Secret longing

### Eglurwch:

Chwedl wreiddiol ydy Drudwen sydd felly yn defnyddio iaith chwedlonol ei naws. Er yn eirfa anodd mae'r Gymraeg yn cael ei chyfosod gyda'r Saesneg er mwyn cyfleu ystyr. Nid oes yna gyfieithu llythrennol. Dach chi'n medru mwynhau y ddrama heb ddallt gair o Gymraeg.

### Y tiwtor i ddarllen:

Y tiwtor i ddarllen y geiriau agoriadol er mwyn egluro yr uchod a thrafod argraffiadau:

*Dewch ar daith, ymhell, i hen wlad hudolus.*

*At the heart of this land lay a jewel, a deep green jewel.*

*Fforest llawn bywyd.*

*You might glimpse Drudwen, the enchantress. Dewines y goedwig*

*With her magical powers she cared for us all, and we loved her in return.*

*Dewines hael a charedig, ond a gadwai gyfrinach. Dyhead gudd am faban ei hun*

*But the only thing that she longed for, was denied.*

*She longed for a child of her own.*

*Ac er bod ei bywyd hi'n llawn llawenydd roedd yna dristwch, tristwch na fyddai fyth yn pylu*

**Trafodwch:** Dach chi'n hoffi sut mae'r ddwy iaith yn cael eu cyfosod (Sit side by side)? Yn y grwp ffocws fe nododd un dysgwr - « **Dwi'n meddwl achos dydyn nhw ddim yn cyfieithu yn union o'r Cymraeg i'r Saesneg bod hyn yn dda i siaradwyr Cymraeg achos bydden nhw yn diflasu clywed yr un peth ddwy waith »**

### **SYNOPSIS O'R STORI – Y tiwtor i ddarllen eto gan wirio geirfa neu rannu copi caled**

Mae Drudwen y ddewines yn edrych ar ol y goedwig a phopeth byw. Mae ei chroen (Skin) yn hydolus (magical) ac mae hi'n medru iachau (to heal) popeth wrth eu cyffwrdd. Ond mae Drudwen isio un peth. Mae hi isio baban. Un diwrnod mae hi'n dod o hyd i (ffeindio) dau faban yn y goedwig ac mae hi wrth ei bodd efo'r efeilliaid (twins). Dydy hi ddim yn gweld eu bod yn ddrwg nes ei bod yn rhy hwyr. Mae'r efeilliaid yn lladd Drudwen a blingo (to peel) ei chroen hudolus. Oes yna arwr/es wneith ddod i wisgo croen Drudwen ac achub y goedwig rhag tywyllwch yr efeilliaid?

### **TRAFODAETH FER Y GELLIR AIL-YMWELD GYDA HI YN DILYN Y SIOE**

Trafod chwedlau eraill a'r fformiwlau cyffredin

## Taflen iw rhoi i'r dysgwyr i fynd i'r sioe ar gyfer pob lefel dysgu

### Prif Gymeriadau/ Main Characters

Drudwen – Y ddewines

Ogi ac Olga – Yr efeilliaid (Twins)

Morwena – Y dywysoges (The princess)

Trystan – Y tywysog (The prince)

Corws a chymeriadau bach eraill  
Chorus and many smaller characters

### Synopsis Stori 'Drudwen'

Mae Drudwen yn ddewines (*enchantress*) gyda chroen hudolus (*magical skin*). Mae hi'n medru iachau (*heal*) popeth wrth eu cyffwrdd (*by touch*). Mae hi'n darganfod (*discovers*) efeilliaid (*twins*) yn y goedwig (*forest*). Dydy hi ddim yn gweld eu bod yn anghenfilod (*monsters*) tan yn rhy hwyr (*too late*). Mae'r efeilliaid yn lladd Drudwen a blingo (*peel or to skin*) ei chroen (*her skin*). Oes 'na arwr/arwres (*hero/heroine*) wneith ddod i achub y dydd (*to save the day*)

### Geirfa/Vocabulary

Ymhell – afar    Hudolus – enchanting    Dewines – enchantress    *Dyhead gudd* – Secret longing

### GEIRFA BYD NATUR (vocabulary from nature)

Llwynog - fox    Drudwy (Drudws -De a Chanolbarth Cymru) – Starling    Cywion- Chicks

Bwystfilod – Monsters    Esgyrnog – bony

Gwynt – wind    Awel – Breeze    Trydar – Tweeting    Brathu – to Bite    Carreg – stone

Muriau - walls    Cysgod – Shadow    Croen – Skin    Y bydysawd - the universe

Y sêr diderfyn – endless stars

**GEIRFA YN DISGRIFIO CYMERIAD HYLL YR EFEILLIAID OGI & OLGA – ddim yn weddus i blant dan 7/** Vocab describing the terrible nature of the twins –not appropriate for children under 7

Eu heiddgedd a'u casineb yn berwi – Their jealousy and hatred boiling

Llygaid yn llosgi – Burning eyes

Bwystfilod rheibus – Predatory monsters

Dim euogrwydd – No guilt

Y pleser yn wag a'r bwystfil byth yn llawn – The pleasure is empty and the monster never full

Mi laddan nhw chdi – They will kill you

Casau – to hate

Llofrydd – Murderer

## **AR OL Y SIOE**

### **GWAITH TRAFOD**

Dach chi'n hoffi sut mae'r ddwy iaith yn cael eu cyfosod (Sit side by side)?

Oedd posib dallt y ddrama heb ddeall gair o Gymraeg?

Pa themau oedd yn y ddrama? Oes na baralelau gyda themau ein byd ni heddiw? e.e.

Yr Amgylchedd

Er yn chwedl newydd oedd hi'n debyg i hen chwedlau eraill?

## **TASG DEIALOG O'R DDRAMA**

### **Drilio Geirfa isod:**

#### **GEIRFA YN DISGRIFIO CYMERIAD HYLL YR EFEILLIAID OGI & OLGA**

Eu heiddigedd a'u casineb yn berwi – Their jealousy and hatred boiling

Llygaid yn llosgi – Burning eyes

Bwystfilod rheibus – Predatory monsters

Dim euogrwydd – No guilt

Y pleser yn wag a'r bwystfil byth yn llawn – The pleasure is empty and the monster never full

Mi laddan nhw chdi – They will kill you

Casau – to hate

Llofrydd – Murderer

### **Gweithgaredd darllen sgript**

Darlennwch y sgript ar y ddalen nesaf sydd yn rhan o'r ddrama. Gwiriwch yr eirfa.

#### **Drilio sgript gydag emosiynau gwahannol:**

Dywedwch wrthynt gyflwyno'r darn mewn emosiynau gwahannol: Hapus; diniwed; cenfigenus; blin; trist. Driliwch ambell frawddeg mewn gwahannol emosiwn gan ddangos sut gall pwyslais a thonfedd ategu eu mynegiant.

Dywedwch wrth y dysgwyr bod rhaid iddynt gyflwyno 3air fersiwn lle mae lefel yr emosiwn yn cynyddu o 25% i 50% i 100%

Darllenwch y sgript eto ar ol ail edrych ar yr eirfa sy'n disgrifio cymeriadau yr efeilliaid. Ceisiwch greu naws dywyll a hyll y cymeriadau.

Yna gofynnwch iddynt ddewis emosiwn priodol neu gyfuniad o emosiynau i gyflwyno'r darn.

## DEIALOG (fersiwn gogleddol)

*Mae'r efeilliaid yn pwdu yn y goedwig ar ol i Drudwen eu gyrru i ffwrdd*

Og; Dy fai di ydy o

Olg; Naci,

Pam tasio chwara efo'r adar gwirion 'na eniwe? Ti 'di difetha bob dim

Og; Be dan ni'n mynd i neud? Dwi bron a llwgu a dwi'n oer

Olg; Dwi'm yn gwybo', dwi 'riod 'di gweld hi fel ma o blaen.... oedd hi'n 'sceri'

Og; Ie, ond dw i ddim isio bod allan yn fama. Rhaid i ni fynd yn ôl.....be ti'n feddwl?

Olg; Na, dwi'm isio gweld hi.....rhaid i ni feddwl am 'wbath arall

Og; I bai hi ydy o, eniwe. Be oedd hi'n neud yma? – yn dilyn ni ac yn specian arna ni.

Trio'n rheoli ni, 'bod yn neis', 'caru pawb a bob dim'

Og&OL; 'Cofiwch ofalu am yr anifeiliaid' bla bla bla,uchhhh

### Geirfa'r ddeilaog:

bai - blame      gwirion - silly      adar - birds

difetha - spoil      llwgu - starve

dilyn - follow      rheoli - rule      goflau - to take care of

## DEIALOG (fersiwn deheuol)



*Mae'r efeilliaid yn pwdu yn y goedwig ar ol i Drudwen eu gyrru i ffwrdd*

Og; Dy fai di yw e

Olg; Nage,

Pam tisie chwara gyda'r adar gwirion 'na eniwe? Ti 'di difetha bob dim

Og; Be dyn ni'n mynd i neud? Dwi bron a llwgu a dwi'n oer

Olg; Dwi'm yn gwybod, dwi 'rioed 'di gweld hi fel ma o blaen.... oedd hi'n 'sceri'

Og; Ie, ond dw i ddim isio bod allan yn fama. Rhaid i ni fynd yn ôl.....be ti'n feddwl?

Olg; Na, dwi'm isio gweld hi.....rhaid i ni feddwl am rywbeth arall

Og; I bai hi yw e, eniwe. Be oedd hi'n neud yma? – yn dilyn ni ac yn specian arno' ni.

Trio'n rheoli ni, 'bod yn neis', 'caru pawb a bob dim'

Og&OL; 'Cofiwch ofalu am yr anifeiliaid' bla bla bla,uchhhh

**Geirfa'r ddeilaog:**

bai - blame      gwirion - silly      adar - birds

difetha - spoil      llwgu - starve

dilyn - follow      rheoli - rule      goflau - to take care of

